

MAGNETIC 2022

GALWAD AM GEISIADAU: PRESWYLIADAU YN FFRAINIC

***Magnetic*, rhwydwaith newydd o breswyliaid artistiaid ar y cyd rhwng Ffrainc a'r Deyrnas Gyfunol**

Dylai artistiaid a chanddynt ddiddordeb mewn cyflwyno cais (dyddiad cau 30 Mai 2022) gyfeirio at yr adran ceisiadau.

Mae *Magnetic* yn gynllun ar y cyd rhwng Ffrainc a'r Deyrnas Gyfunol, sy'n tynnu wyth lleoliad at ei gilydd i greu rhaglen newydd o breswyliaid artistiaid o rhwng 2 a 3 mis mewn hyd: bydd pedwar ohonynt yn Ffrainc ar gyfer yr artistiaid o'r Deyrnas Gyfunol – CAPC yn Bordeaux, CRAC Occitanie yn Sète, FRAC Grand Large yn Dunkerque, a Villa Arson yn Nice – a phedwar yn y Deyrnas Gyfunol ar gyfer artistiaid o Ffrainc – Grizedale Arts yn Lloegr, Flax Art Studios yng Ngogledd Iwerddon, Cove Park yn yr Alban a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Cymru.

Yn raddol, bydd *Magnetic* yn adeiladu rhwydwaith ehangach o sefydliadau partner sy'n rhannu'r un ymrwymadau a gwerthoedd.

Nodweddir rhaglen *Magnetic* gan nifer o gryfderau:

- Bydd materion cymdeithasol ac amgylcheddol wrth galon y rhaglen hon; bydd y preswyliaid'n cael eu *lleoli*, a disgwylir i'r artistiaid a ddewisir weithio mewn cyseiniant â phob cyd-destun penodol – daearyddol neu hanesyddol, cymdeithasol, artistig ac yn y blaen
- Bydd artistiaid yn derbyn ffi misol o £2000/2500€
- Bydd pob artist yn cael budd o fentora curadurol
- Bydd pob preswyliaid yn cael ei deilwra mewn trafodaeth gyda thimau curadurol y sefydliadau
- Bydd pob preswyliaid yn darparu cyfleoedd rhwydweithio i'r artist drwy gydol eu harhosiad
- Darperir llety a mynediad at ofod gweithio ar gyfer yr artistiaid

Isod, cyflwynir wyth preswyliaid cyntaf y rhwydwaith

Bydd y rhaglen hon yn galluogi artistiaid a leolir yn y Deyrnas Gyfunol i dreulio preswyliaid o rhwng 2 a 3 mis, wedi eu cyllido'n llawn, yn y sefydliadau canlynol yn Ffrainc:

- Frac Grand Large / Dunkerque / Hauts-de-France
- CAPC / Bordeaux / Nouvelle Aquitaine
- Crac Occitanie / Sète
- Villa Arson / Nice / Région Sud Provence-Alpes-Côte d'Azur

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Llun 30 Mai 2022

Frac Grand Large / Hauts-de-France, Dunkerque

Cyfnod: o leiaf 2 fis – dim mwy na 3 mis

Argaeledd: dyddiad dechrau rhwng mis Tachwedd a diwedd mis Rhagfyr

Mae'r preswyliaid yn cael ei redeg gan y Frac Grand Large mewn partneriaeth â'r Ecole supérieure d'art Dunkerque-Tourcoing, Safle Dunkerque.

Wedi ei leoli ar groesffordd ddaearyddol a diwylliannol (Y Deyrnas Gyfunol, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, yr Almaen ac yn y blaen), y Frac Grand Large yw'r prif actor mewn rhwydwaith o bartneriaid rhanbarthol ac Ewropeaidd sy'n hyrwyddo cylchrediad syniadau, artistiaid a gweithiau celf. Mae ei brosiect artistig yn seiliedig ar ei gasgliad, a ddaeth i fod fel modd o adeiladu perthynas gyda chymunedau lleol, a'i artistiaid a'i guraduron gwadd sy'n angori eu myfyrdodau o fewn cyd-destun a nodir gan ei hanes diwydiannol a'i drawsffurfiadau.

1/ FFOCWS

Mae'r Frac a'r Ecole yn croesawu ceisiadau sy'n taflu golau ar y cysylltiadau a'r tensiynau artistig, cymdeithasol ac economaidd sy'n bodoli rhwng celf a diwydiant, mewn cyfnod o frys ecolegol a'r Anthropocene. Yn ogystal, mae gan y Frac ddiddordeb arbennig mewn ymchwil sy'n berthnasol i gelf a ddefnyddir yn y gofod cyhoeddus.

2/ ADNODDAU'R RHAGLEN

Mae'r Frac yn darparu mynediad cyfartal at adnoddau a gwasanaethau ar gyfer pob defnyddiwr, waeth pa anabledau neu amhariad sydd ganddynt.

Mae'r preswyliaid yn cynnig:

- Ffioedd artist o 2500 €/y mis
- Llety preifat wedi'i ddodrefnu yn ninas Dunkerque, sy'n addas ar gyfer y rhai sy'n mynychu gyda phlant
- Stiwdio unigol maint 60m² wedi ei lleoli yn yr Ecole supérieure d'art, safle Dunkerque. Mae cynllun y stiwdio yn golygu y gellir ei defnyddio fel gofod arddangos. Mae'n hygyrch i bawb.
- Lle bo modd: mynediad i stiwdio dechnegol o fewn yr Ecole supérieure d'art, safle Dunkerque, a chymorth a chynghor gan dîm Dunkerque.
- Defnydd o gar i deithio yn y rhanbarth ac ymhellach
- Cefnogaeth guradurol gan Keren Detton, cyfarwyddwr y Frac
- Cysylltiad ag actorion o'r rhwydwaith lleol (cymdeithasau, corfforaethau, sefydliadau, athrawon, artistiaid, curaduron, beirniaid celf, ac yn y blaen)
- Telir costau hedfan a theithio

Villa Arson, Nice

Cyfnod: o leiaf 2 fis – dim mwy na 3 mis
Argaeledd: unrhyw bryd o 17 Hydref, 2022

Mae'r Villa Arson yn sefydliad cyhoeddus uchel ei barch sy'n rhan o weinyddiaeth ddiwylliant Ffrainc; fe'i lleolir yn Nice ac mae'n aelod o'r Université Côte d'Azur. Mae'n cyfuno nifer o swyddogaethau cyflenwol i gefnogi creu cyfoes: dysgu, ymchwil, arbrofi, cynhyrchu, rhannu a lledaenu, hyrwyddo a chefnogi. Mae ysgol gelf y Villa Arson, ynghyd â'r ganolfan gelf gyfoes, preswyladau artistiaid a'r llyfrgell arbenigol, yn ffurfio ecosystem unigryw sy'n ymroi i gefnogi cenedlaethau o artistiaid ifanc wrth iddynt symud i ymarfer proffesiynol, gan gyflwyno gweledigaethau artistig gwreiddiol a hwyluso cyfnewid beirniadol ac iddo bersbectif rhyngwladol.

O'i safle 13000 troedfedd sgwâr, mae canolfan gelf Villa Arson yn cyflwyno rhaglen arddangos rhyngwladol, a honno'n codi'n rhannol o brosiectau a arweinir gydag artistiaid a churaduron gwadd sy'n archwilio'r ymarferion artistig mwyaf cyfoes ac yn cynhyrchu cyfarfyddiadau ysgogol.

Mae'r Villa Arson – a gynlluniwyd fel pentref Môr y Canoldir yn edrych dros Fae'r Angylion – yn croesawu ymwelwyr preswyl i'w weithgareddau addysgu ac ymchwil, ac o fewn y fframwaith o bartneriaethau a deilwriwyd ar gyfer cynhyrchu artistig ac ymchwil.

1/ FFOCWS

Mae'n bosibl y bydd gan yr artist preswyl gyfle i ymwneud â chyd-destun addysgiadol Villa Arson ac i ryngweithio gyda myfyrwyr ac Athrawon yn ystod y flwyddyn academaidd. Yn dibynnu ar eu hymarfer a'u diddordebau, bydd yr artist yn gallu gweithio'n agos gydag artistiaid a damcaniaethwyr sy'n dysgu yn Villa Arson. Mae'r Villa Arson yn croesawu artistiaid a chanddynt ddiddordeb yn y trawsgroesiadau rhwng creu artistig, ymchwil, arbrofi a throsoglwyddo.

2/ ADNODDAU'R RHAGLEN

Mae'r preswyl yn cynnig:

- Ffioedd artist o 2500 €/y mis
- Llety preifat, wedi'i ddodrefnu, ar y safle yn Villa Arson, sy'n addas ar gyfer y rhai sy'n mynychu gyda phlant
- Gofod stiwdio at ddefnydd personol yr artist
- Os bydd angen, ceir mynediad at [weithdai technegol](#) yr ysgol gelf, ynghyd â'r [llyfrgell amlgyfrwng](#) a'r ganolfan adnoddau
- Cysylltiad â'r gymuned leol a rhanbarthol o bobl broffesiynol yn y meysydd creadigol, academaidd a diwylliannol (cymdeithasau, sefydliadau diwylliannol, Athrawon, artistiaid, curaduron, beirniaid celf ac yn y blaen)
- Mentoriaeth, cyngor a goruchwyliaeth gan aelodau o dîm Villa Arson
- Telir costau hedfan a theithio.

Crac Occitanie, Sète

Cyfnod: o leiaf 2 fis – dim mwy na 3 mis

Argaeledd: o fis Hydref hyd fis Rhagfyr

Wedi ei leoli yng nghalon dinas Sète, mae gan y Crac Occitanie olygfa dros y porthladd a Môr y Canoldir. Mae ei bensaerniaeth eithriadol yn adlewyrchu natur ddiwydiannol yr adeilad, a ddefnyddid yn wreiddiol fel warws rhewiddio ar gyfer storio pysgod. Yn 1997 cafodd y cyn-warws ei drawsnewid yn safle arddangos cwbl arbennig, sy'n darparu 1,200 metr sgwâr o ofod mewn orielau.

Mae'r Crac yn cynnig rhaglen o arddangosfeydd dros-dro, ac yn datblygu rhaglen ddiwylliannol ac addysgol ddynamig ar gyfer pob cynulleidfa, a hynny trwy gyfrwng teithiau tywys, gweithdai, darlithoedd, cyngherddau, perfformiadau a mwy.

Mae'r Crac yn hyrwyddo partneriaethau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ac iddynt ffocws penodol ar ymgysylltu â'r cyhoedd. Fel lleoliad ar gyfer cynhyrchu, ymchwil, arbrofi ac arddangos, mae'r Crac - yn ystod yr ugain mlynedd ddiwethaf - wedi cyflwyno dros chwe chant o artistiaid o'r sîn celf yn Ffrainc ac yn rhyngwladol.

1/ FFOCWS

Mae'r Crac yn croesawu ceisiadau am breswyliaid sy'n talu sylw arbennig i gynrychioliadau ac arferion a anwybyddir, mewn ymdrech i chwalu systemau gwerth sefydledig, megis yr hyn a elwir yn ddiwylliant uchel/isel, neu gyd-destun canolog/y cyrion.

Mae'r Crac hefyd yn croesawu ceisiadau sy'n ymgysylltu â phŵer y dychymyg, yr anymwybodol, a'r cysylltiad clòs sydd rhyngom ni a mythau.

Noder, os gwelwch yn dda, fod y cyfle hwn wedi ei anelu at artistiaid sy'n dymuno dilyn preswyliaid yn seiliedig ar ymchwil.

2/ ADNODDAU'R RHAGLEN

Mae'r Crac yn darparu mynediad cyfartal at adnoddau a gwasanaethau ar gyfer pob defnyddiwr, waeth pa anabledau neu amhariad sydd ganddynt.

Mae'r preswyliaid yn cynnig:

- Ffioedd artist o 2500 €/y mis
- Llety preifat wedi'i ddodrefnu yn ninas Sète, yn cynnwys gofod swyddfa ac yn addas ar gyfer y rhai sy'n mynychu gyda phlant
- Os bydd angen, gellir trefnu mynediad i stiwdios
- Cymorth curadurol gan Marie Cozette, cyfarwyddwr y Crac
- Yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r artist, gellir trefnu cysylltiad ag actorion o'r rhwydwaith lleol (cymdeithasau, corfforaethau, sefydliadau, athrawon, artistiaid, curaduron, beirniaid celf, ac yn y blaen)
- Telir costau hedfan a theithio.

CAPC, musée d'art contemporain, Bordeaux

Cyfnod: o leiaf 2 fis - dim mwy na 3 mis
Argaeledd: o fis Rhagfyr 2022 hyd fis Chwefror 2023

Y CAPC, a sefydlwyd yn 1973, yw amgueddfa celf gyfoes dinas Bordeaux. Yn 2002, enillodd y label "Musée de France", sy'n cydnabod ei statws fel amgueddfa o ddiddordeb i'r cyhoedd. Mae'n un o'r sefydliadau celf hynaf a mwyaf anrhydeddus yn Ffrainc, ac wedi ei leoli o fewn Entrepot Lainé, adeilad rhestredig o'r G19 a adnewyddwyd gan y penseiri Valode a Pistre a'r cynllunydd mewnol Andrée Putman, ac sydd bellach yn ymfalchio yn ei ofod arddangos 3,500 metr sgwâr.

Drwy gydol ei hanes, mae'r CAPC wedi bod yn blatfform lle gallai artistiaid arbrofi, ac yn safle sy'n cynnig cyfarfyddiadau cyfoethog a hael ar gyfer ymwelwyr. Mae casgliad yr amgueddfa bellach yn cynnwys dros 1,900 o weithiau gan fwy na 300 o artistiaid o bob cwr o'r byd, megis Daniel Buren, Nan Goldin, Sol LeWitt, Annette Messager a Richard Serra sy'n cynrychioli'r rhai sydd wedi hen sefydlu eu hunain, ond hefyd Benoît Maire, Julie Béna, Naufus Ramírez-Figueroa, Danh Võ a Leonor Antunes sy'n cynrychioli egin-artistiaid ar lwyfan rhyngwladol.

Yn 2021, enillodd CAPC y label "Art Center of national interest", a thrwy hynny dynnu sylw at ei rôl fel cynhyrhydd arddangosfeydd a chefnogwr gwahanol arferion artistig ar amryw o lefelau (rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol).

1/ FFOCWS

Yn fuan ar ôl ei sefydlu, cafodd CAPC gyfle i gartrefu yn yr Entrepôt Lainé, adeilad treftadaeth rhestredig yn ardal Chartrons yn wynebu afon Garonne. Mewn adlais o hanes a chof yr adeilad - a adeiladwyd yn 1824 fel warws ar gyfer nwyddau trefedigaethol - mae gan CAPC ddiddordeb arbennig mewn ceisiadau am breswylfeydd sy'n mynd i'r afael â'r hanes a'r dylanwad hwn, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan dynnu ar gysylltiadau rhwng pensaernïaeth, cof a hanes. Mae'r CAPC hefyd yn croesawu ceisiadau sy'n ymwneud â phynciau eraill, gan ddefnyddio pensaernïaeth CAPC a/neu hanes lleol mewn gwahanol ffyrdd.

2/ ADNODDAU'R RHAGLEN

Mae'r preswylfiad yn cynnig:

- Ffioedd artist o 2500 €/y mis
- Llety preifat wed'i ddodrefnu, maint 50m², o fewn y CAPC. Addas ar gyfer y rhai sy'n mynychu gyda phlant (1 gwely dwbl ac 1 gwely sengl)
- Mynediad i'r gofodau o fewn y CAPC (awditoriwm, swyddfeydd, ystafell gyfathrebu, llyfrgell)
- Os bydd angen, gellir cael mynediad i stiwdios technegol CAPC
- Cymorth curadurol gan Marion Vasseur Raluy, curadur yn CAPC
- Cysylltiad ag actorion lleol (cymdeithasau, corfforaethau, sefydliadau, athrawon, artistiaid, curaduron, beirniaid celf, ac yn y blaen)
- Telir costau hedfan a theithio.

CAIS AM RAGLEN PRESWYLIADAU *MAGNETIC*

Mae'r ceisiadau yn awr ar agor hyd hanner nos Ddydd Llun 30 Mai

Mae'r galwad am geisiadau ar agor i artistiaid proffesiynol sy'n gweithio yn y celfyddydau gweledol, ac sydd eisoes wedi cyflwyno eu gwaith mewn o leiaf un o sefydliadau dynodedig y rhwydweithiau celf gyfoes.

Gofynnir i chi gyfeirio at y ffurflenni cais a'r Cwestiynau Cyffredin a gynhwysir.

Dim ond ceisiadau cyflawn gaiff eu hystyried.

Dewis y rhai llwyddiannus

Bydd gan pob preswyliad ei bwyllgor dewis ei hun.

Bydd pob pwyllgor dewis yn cynnwys y canlynol:

- cyfarwyddwr y preswyliad
- personoliaeth cymwys yn y maes diwylliannol o ranbarth y preswyliad
- aelod o bwyllgor artistig *Fluxus Art Projects*
- dau aelod o'r Institut français du Royaume-Uni

Y meini prawf ar gyfer dewis yw:

- hynodrwydd, y gofyn ac integreiddiad y gwaith o fewn arferion celf gyfoes
- cymhelliant yr artist dros ddewis y preswyliad hwnnw
- perthnasedd y prosiect yn y cyd-destun a chyda ffocws y preswyliad

Caiff yr artistiaid ar y rhestr fer eu gwahodd i gyfweiliad dros Zoom.